Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016

# Cefnogi gwelliant parhaus: canllawiau ar gynnal adolygiad o ansawdd y gofal

Rhagfyr 2025

This document is also available in English.
Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

© Hawlfraint y Goron 2024 WG38385 Digital ISBN 978-1-83876-632-D

## Cynnwys


**1. Cyflwyniad** .....2

**2. Cyd-destun cyfreithiol a chysylltiadau** .....3

**3. Cynnal yr adolygiad o ansawdd y gofal** .....6

**4. Adroddiad ar yr adolygiad o ansawdd y gofal** .....10

**Atodiad A – Awgrymiadau a Chyngor: Pethau i'w gwneud a phethau i'w hosgoi** *(addaswyd o waith Estyn)* .....12

**Atodiad B - Adnoddau defnyddiol** .....13

**Atodiad C - Deddfwriaeth gysylltiedig** .....14

**Atodiad D - Enghreifftiau o'r hyn i'w gynnwys mewn adroddiad ar yr Adolygiad o Ansawdd y Gofal** .....15

**Atodiad E - Crynodeb o ddisgrifyddion graddau AGC** .....16

**Atodiad F - Templed ar gyfer adroddiad ar yr adolygiad o ansawdd y gofal** .....17

# 1. Cyflwyniad


Rhaid i ddarparwyr wella ansawdd y gofal a'r cymorth y maent yn eu darparu yn barhaus. Mae'r canllawiau hyn yn cynnig fframwaith dewisol ar gyfer hunanwerthuso a gwella i gefnogi darparwyr gwasanaethau a reoleiddir o dan [Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016](https://www.legislation.gov.uk/anaw/2016/2/contents) (Deddf 2016).

Nid yw'r canllawiau yn disodli Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017 na'r canllawiau statudol cysylltiedig. Gall darparwyr ddangos cydymffurfiaeth mewn ffyrdd eraill, ar yr amod eu bod yn parhau i ganolbwyntio ar ganlyniadau i ddefnyddwyr gwasanaethau.

**Cefnogi gwelliant parhaus**

Mae adolygiad o ansawdd y gofal yn broses hunanwerthuso strwythuredig. Mae'n helpu darparwyr i asesu pa mor dda y maent yn diwallu anghenion pobl ac yn cyflawni canlyniadau cadarnhaol. Dylai'r adolygiad fod yn rhan o gylch gwella parhaus, nid yn ymarfer untro. Mae'n galluogi darparwyr i werthuso eu perfformiad a beth sydd angen ei wella, gan arwain at ganlyniadau gwell i bobl sy'n cael gofal. Nid ymarfer 'ticio blwch' mohono ac nid rhywbeth i AGC yn unig mohono chwaith, ond mae'n bosibl y byddwn yn gofyn i'w weld fel rhan o dystiolaeth i'n helpu i lunio barn ar arweinyddiaeth a rheolaeth.

Nid yw'r adolygiad yn bodoli ar ei ben ei hun; mae cysylltiad anorfod rhyngddo â'r datganiad o ddiben, ymweliadau'r Unigolyn Cyfrifol a'r broses o ymgysylltu â phobl a'r Datganiad Blynyddol.




Nod gweithgarwch gwella mewn gwasanaethau gofal yw gwella'r gofal a ddarperir. Gallai hynny olygu gwneud y gofal yn fwy diogel (llai o gamgymeriadau, heintiau, achosion o gwympo), yn fwy effeithiol (canlyniadau llesiant), yn fwy effeithlon (llai o

wastraff) neu sicrhau ei fod yn canolbwyntio mwy ar yr unigolyn (gofalgar, tosturiol, cyd-fynd â dymuniadau'r unigolyn/teulu).


Nid drwy hap a damwain y bydd ansawdd gofal yn gwella. Rhaid i unigolion, timau a sefydliadau ystyried sut y gallant wella'r gofal drwy wneud newidiadau i'r ffordd y maent yn gweithio. Mae gwella gofal yn aml yn golygu newid arferion. Weithiau, gall newid bach wneud gwahaniaeth enfawr.

Bydd gwelliannau strwythuredig sydd wedi'u cynllunio'n dda yn fwy tebygol o lwyddo. *“Ni ddylem byth feddwl bod y daith i wella wedi'i ‘chwblhau’. Pan fyddwn yn meddwl hynny, byddwn yn dechrau colli'r materion a allai godi.”* Sgiliau Gofal

**Creu diwylliant i wella**

Mae gwelliant yn ffynnu mewn diwylliant gweithle cadarnhaol, yn seiliedig ar werthoedd clir ac arweinyddiaeth gryf a thosturiol. Dylid cynnwys pawb yn y sefydliad yn y broses o wneud gwelliannau.

Ar y cyd â Gofal Cymdeithasol Cymru, rydym wedi datblygu adnodd Diwylliannau Cadarnhaol i gefnogi diwylliannau cadarnhaol sy'n canolbwyntio ar bum egwyddor allweddol, a ategir gan systemau a phrosesau. Gall y fframwaith hwn eich helpu i feddwl am ddiwylliant eich gwasanaeth.




## 2. Cyd-destun cyfreithiol a chysylltiadau

Mae Deddf 2016 yn gosod ansawdd gwasanaethau ac ymdrechion i wella gwasanaethau wrth wraidd trefniadau rheoleiddio, gan atgyfnerthu prosesau amddiffyn ar gyfer y rhai hynny sydd eu hangen, a sicrhau bod gwasanaethau yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel. Mae hyn yn cefnogi nodau Deddf

Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, sy'n ymgorffori hawliau pobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal a chymorth yng Nghymru yn y gyfraith.

**Rheoliad 8**

Mae'r rheoliad hwn yn nodi'r gofynion i ddarparwyr gwasanaethau sicrhau bod trefniadau effeithiol ar waith i fonitro, adolygu a gwella ansawdd y gofal a'r cymorth[1][2] a ddarperir, yn unol â'r Datganiad o Ddiben. Mae hyn yn cynnwys nodi'r canlynol:

- pwy sy'n gyfrifol am sicrhau y caiff hyn ei wneud
- sut y caiff hyn ei wneud
- pa mor aml y bydd hyn yn cael ei wneud
- y trefniadau sydd ar waith i'r unigolyn cyfrifol adrodd i'r darparwr gwasanaeth.

Rhaid iddo hefyd gynnwys gofyn am farn y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, eu cynrychiolwyr, staff sy'n gweithio yn y gwasanaeth a'r awdurdod perthnasol lle bo hynny'n briodol (fel yr awdurdod lleol neu'r bwrdd iechyd sydd wedi trefnu'r cymorth a ddarperir), ar ansawdd y gofal a'r cymorth a ddarperir gan y gwasanaeth ac unrhyw welliannau sydd eu hangen.

**Datganiad o Ddiben (rheoliad 7)**

Mae 82 o gyfeiriadau at y Datganiad o Ddiben yn y canllawiau statudol, sy'n tynnu sylw at bwysigrwydd y ddogfen hon. Dylid disgrifio nodau ac amcanion y gwasanaeth, y gofal a'r cymorth y mae'n eu darparu, ble a phryd y cânt eu darparu, a'r trefniadau sydd ar waith i gefnogi'r ddarpariaeth. Drwy eu hymweliadau â'r gwasanaeth a'r adolygiad o ansawdd y gofal, dylai Unigolion Cyfrifol allu dangos sut maent yn cyflawni'r Datganiad o Ddiben.

**Diwylliant cadarnhaol (rheoliad 6)**

Cafodd y canllawiau statudol ar gyfer Deddf 2016 eu diwygio ym mis Mawrth 2024 ac maent yn cynnwys cyfeiriad at gydraddoldeb a diwylliannau cadarnhaol. Rhaid bod gan ddarparwyr gwasanaethau drefniadau clir ar waith i oruchwylio a llywodraethu'r gwasanaeth i hyrwyddo diwylliant tosturiol sy'n cyflawni'r canlyniadau gorau i'r bobl ac yn cefnogi llesiant y staff

**Dyletswydd Gonestrwydd (rheoliad 13)**

Rhaid i ddarparwyr gwasanaethau hyrwyddo diwylliant o onestrwydd. Mae cysylltiadau clir ag adolygu ansawdd y gofal, gan fod yn agored ac yn onest am yr hyn sy'n gweithio'n dda a'r hyn y mae angen ei wella.  Mae cydnabod bod angen

---

[1] Ar gyfer gwasanaeth eirioli rheoleiddiedig, mae cyfeiriadau at 'gofal a chymorth' yn y canllawiau hyn yn golygu 'yr eiriolaeth a ddarperir'.
[2] Ar gyfer gwasanaeth mabwysiadu rheoleiddiedig, mae cyfeiriadau at 'gofal a chymorth' yn y canllawiau hyn yn golygu 'cymorth'.

gwella a bod yn dryloyw ynglŷn â'r potensial i wneud gwelliannau yn hollbwysig er mwyn sefydlu diwylliant dysgu agored.

**Ymweliadau gan yr Unigolyn Cyfrifol (rheoliad 73)**

Rhaid i'r Unigolyn Cyfrifol ymweld â'r gwasanaeth yn bersonol bob tri mis o leiaf er mwyn cyfarfod â phobl i fonitro perfformiad y gwasanaeth mewn perthynas â'i ddatganiad o ddiben a llywio'r adolygiad o ansawdd y gofal.

Rhaid i'r Unigolyn Cyfrifol sicrhau bod ymweliadau'n cael eu cofnodi a'u dogfennu, gan gynnwys tystiolaeth o'r canlynol:

- dyddiad yr ymweliad
- manylion trafodaethau â'r staff a'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth
- manylion y cofnodion a welwyd,
- manylion canlyniad yr ymweliad, er enghraifft, y camau a gymerwyd neu y mae angen eu cymryd i wella'r gwasanaeth

**Ymgysylltu â phobl (rheoliad 76)**

Rhaid i'r Unigolyn Cyfrifol sicrhau bod trefniadau hygyrch ar waith i gasglu adborth gan y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, eu cynrychiolwyr, y staff a chomisiynwyr.

Rhaid cyflwyno eu safbwyntiau i ddarparwr y gwasanaeth a'u hystyried yn yr adroddiad ar yr adolygiad o ansawdd y gofal er mwyn llywio'r cynlluniau ar gyfer gwella.

**Adolygiad o ansawdd y gofal (rheoliad 80)**

Mae gan yr Unigolyn Cyfrifol gyfrifoldeb cyfreithiol i sefydlu a chynnal system i fonitro, adolygu a gwella ansawdd y gofal a'r cymorth a ddarperir gan y gwasanaeth. Dyma'r ‘adolygiad o ansawdd y gofal[3] fel y'i gelwir. Dylid cynnal yr adolygiadau hyn mor aml ag sydd angen, ond bob chwe mis o leiaf.

Dylai ymweliadau bob tri mis gan yr Unigolyn Cyfrifol lywio'r adolygiad.

Rhaid i'r adolygiad:

- ystyried canlyniad y broses o ymgysylltu â phobl
- dadansoddi’r data cyfanredol ar ddigwyddiadau, digwyddiadau hysbysadwy, materion diogelu, chwythu’r chwiban, pryderon a chwynion;
- adolygu unrhyw gamau gweithredu a gymerir mewn perthynas â chwynion; ac
- ystyried canlyniad unrhyw archwiliad o gywirdeb a chyflawnrwydd cofnodion.

[3] Ar gyfer gwasanaeth eirioli rheoleiddiedig a gwasanaeth mabwysiadu rheoleiddiedig, caiff ei alw yn ‘adolygiad o ansawdd y gwasanaeth’.

Ar ôl cwblhau adolygiad o ansawdd y gofal a'r cymorth, rhaid i'r Unigolyn Cyfrifol[4] baratoi adroddiad i ddarparwr y gwasanaeth (oni bai bod y darparwr wedi'i gofrestru fel unigolyn). Dyma adroddiad yr adolygiad o ansawdd y gofal a rhaid i'r adroddiad gynnwys asesiad o safon y gofal a'r cymorth a ddarperir ynghyd ag argymhellion ar gyfer gwella'r gwasanaeth.

Wrth wneud unrhyw benderfyniadau ar gynlluniau i wella ansawdd y gofal a'r cymorth, rhaid i ddarparwr y gwasanaeth ystyried barn y rhai yr ymgynghorwyd â nhw ac ystyried adroddiad yr adolygiad o ansawdd y gofal a baratowyd gan yr Unigolyn Cyfrifol.

**Datganiadau Blynyddol (rheoliad 81)**

Mae cysylltiad clir rhwng yr adolygiad o ansawdd y gofal a datganiad blynyddol darparwr y gwasanaeth. Mae'n ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau gyflwyno datganiad blynyddol ar ôl diwedd pob blwyddyn ariannol.  Rhaid i'r datganiad blynyddol gynnwys y wybodaeth a nodir yn adran 10 o Ddeddf 2016 a'r rheoliadau mewn perthynas â datganiadau blynyddol a wnaed o dan y Ddeddf.

Mae hyn yn cynnwys darparu datganiad cydymffurfio sy'n bodloni'r gofynion o ran y safonau gofal a chymorth a nodir yn y rheoliadau. Yr Unigolyn Cyfrifol sy'n gyfrifol am baratoi'r wybodaeth a ddarperir yn y datganiad cydymffurfio sy'n rhan o ddatganiad blynyddol darparwr y gwasanaeth ac mae'r Unigolyn Cyfrifol yn atebol am ansawdd a chywirdeb y wybodaeth honno hefyd. Dylai gael ei lywio gan ymweliadau'r Unigolyn Cyfrifol, yr adolygiadau o ansawdd y gofal ac adroddiadau ar ansawdd y gofal a'u hadlewyrchu.

## 3. Cynnal yr adolygiad o ansawdd y gofal

**Pwy sy'n gyfrifol am yr adolygiad o ansawdd y gofal?**

Mae llinellau atebolrwydd, cyfrifoldeb a dirprwyo clir rhwng darparwr y gwasanaeth, yr unigolyn cyfrifol a'r rheolwr[5]. Yn gryno:

- Darparwr y Gwasanaeth: Ysgogi gwelliant a sicrhau bod systemau ar waith i sicrhau ansawdd a gweithredu ar ganfyddiadau a nodwyd yn yr adroddiad ar yr adolygiad o ansawdd y gofal.
- Unigolyn Cyfrifol: goruchwylio ansawdd a chydymffurfiaeth, sicrhau dadansoddiad ar sail tystiolaeth a pharatoi'r adroddiad ar yr adolygiad o ansawdd y gofal ar gyfer y darparwr.
- Rheolwr: Rheoli gweithrediadau o ddydd i ddydd a rhoi camau gweithredu o'r adolygiad ar waith. Gall helpu'r Unigolyn Cyfrifol i adolygu ansawdd y gofal.


[4] Nid yw'r gofyniad hwn yn gymwys os mai unigolyn yw darparwr y gwasanaeth
[5] Y rheolwr sydd wedi cael ei benodi gan yr unigolyn cyfrifol

**Sut mae cynnal adolygiad effeithiol o ansawdd y gofal?**

Mae adolygiad effeithiol o ansawdd y gofal yn adnodd gwella pwysig a dylai wneud y canlynol:

- Asesu a yw hawliau pobl yn cael eu cynnal ac a yw canlyniadau personol yn cael eu cyflawni.
- Dadansoddi tystiolaeth o adborth, digwyddiadau, archwiliadau a ffynonellau eraill.
- Nodi blaenoriaethau ar gyfer gwella a chynllunio camau gweithredu.
- Monitro a gwerthuso cynnydd.

Mae adolygiad trylwyr yn triongli'r dystiolaeth o ffynonellau amrywiol, gan gynnwys yr ymweliadau bob tri mis gan yr Unigolyn Cyfrifol, yn nodi blaenoriaethau ar gyfer gwella, yn cynllunio camau gweithredu ac yn monitro cynnydd i wella canlyniadau personol ac ansawdd y gwasanaeth.




*Safonau ansawdd*

Gall fod yn ddefnyddiol sefydlu safonau ansawdd a dangosyddion perfformiad clir ar gyfer y gwasanaeth, sy'n adlewyrchu'r datganiad o ddiben a rheoliadau perthnasol, ond nid yw hyn yn ofyniad cyfreithiol.

Mae'r safonau yn egluro beth y gall pobl ei ddisgwyl gan y gwasanaeth ac yn dangos effaith y gwasanaeth ar y bobl sy'n ei ddefnyddio.

Bydd mesur, casglu a dadansoddi gwybodaeth mewn perthynas â safonau ansawdd yn darparu tystiolaeth i lywio cynlluniau i wella'r gwasanaeth.

Gallai hefyd fod yn ddefnyddiol ystyried pa mor dda rydych yn perfformio mewn perthynas ag egwyddorion Diwylliannau Cadarnhaol.

- Gwarchod, hyrwyddo a chefnogi hawliau pobl
- Bod yn arweinwyr tosturiol
- Gwerthoedd ac ymddygiadau cadarnhaol
- Perthnasoedd da ar sail cryfderau
- Cefnogi dysgu, datblygu a gwella parhaus

*Casglu tystiolaeth*

Dylai fod gennych systemau a phrosesau i'ch galluogi i gasglu tystiolaeth am sut mae'r gwasanaeth wedi cyfoethogi bywydau pobl a/neu eu helpu i gyflawni eu canlyniadau llesiant.

Rhaid i hyn gynnwys:

- canlyniad y broses o ymgysylltu â phobl
- dadansoddi'r data cyfanredol ar ddigwyddiadau, digwyddiadau hysbysadwy, materion diogelu, chwythu'r chwiban, pryderon a chwynion
- materion a gwersi a ddysgwyd wrth ddadansoddi cwynion a materion diogelu
- patrymau a thueddiadau a welwyd drwy ddadansoddi digwyddiadau neu ddamweiniau a fu bron â digwydd, er enghraifft cwympo neu wallau wrth roi meddyginiaeth, risgiau diogelu, cofnodion o reolaeth neu ataliaeth
- archwiliadau o gofnodion, gan gynnwys cynlluniau personol

Dylech geisio cael gwybodaeth o amrywiaeth o ffynonellau er mwyn sicrhau bod casgliadau yn seiliedig ar dystiolaeth wedi'i thriongli. Amlinellir awgrymiadau isod.

Mae'r bobl sy'n cael gofal a chymorth, eu teulu a'u ffrindiau, a'r rhai sy'n eirioli ar eu rhan yn chwarae rôl unigryw wrth nodi beth sy'n gweithio'n dda a beth sydd angen ei wella, gan gynnig atebion a sicrhau bod unrhyw newidiadau yn arwain at ganlyniadau gwell. Fel arfer, mae gan wasanaethau sy'n defnyddio barn pobl i wella ddiwylliannau cadarnhaol sy'n agored, yn dryloyw ac yn gynhwysol.

Mae'n bwysig cynnig nifer o sianeli i bobl rannu eu hadborth, gan sicrhau bod pob llais yn cael ei glywed.

- Gofynnwch i bobl a yw cynlluniau ar gyfer eu gofal yn adlewyrchiad cywir ohonynt hwy fel pobl, eu canlyniadau a sut yr hoffent gael eu cefnogi? Bydd hyn yn sicrhau y gall gwasanaethau gael eu teilwra i ddiwallu anghenion a bodloni dymuniadau pobl.
- Cofnodwch sut mae'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth wedi helpu i'w ddylunio a'i wella.

- Ceisiwch gynnwys aelodau'r tîm. Gofynnwch iddynt a ydynt yn teimlo'n hyderus ac a oes ganddynt yr adnoddau sydd eu hangen arnynt i wneud eu

gwaith yn gywir? A yw'r strwythurau cywir ar waith i wrando arnynt a'u grymuso?

- Ewch ati i fonitro lefelau staffio, lefelau boddhad staff a nodi unrhyw faterion staffio penodol, fel swyddi gwag, materion yn ymwneud â'r rota, argaeledd ac ansawdd hyfforddiant, trefniadau cytundebol, cofrestriadau proffesiynol, canlyniadau goruchwylio a lefelau salwch
- Ystyriwch gofnodion, gan gynnwys cynlluniau personol, canmoliaeth, archwiliadau, camgymeriadau a fu bron â digwydd a digwyddiadau
- Ystyriwch ganlyniadau unrhyw gamau gweithredu i wella'r gwasanaeth neu unrhyw ymchwiliadau yn y gwasanaeth
- Adolygwch ganlyniadau mewn perthynas ag olrhain, ymchwilio a monitro digwyddiadau fel digwyddiadau diogelu a chwynion
- Ystyriwch ganfyddiadau adroddiadau arolygu gan reoleiddwyr neu adroddiadau gan gomisiynwyr.

*Dadansoddi*

Adolygwch eich gwasanaeth, gan ddadansoddi'r dystiolaeth a gasglwyd i lunio casgliadau am berfformiad ac ar lwyddiant wrth gyflawni canlyniadau.

- A yw eich gwasanaeth yn eich helpu i gyflawni'r genhadaeth, y weledigaeth a'r amcanion a nodir yn y Datganiad o Ddiben?
- A yw eich gwasanaeth yn diwallu anghenion y bobl rydych yn eu cefnogi?
- Pa mor dda mae'r gwasanaeth yn perfformio (gan gynnwys safonau ansawdd / dangosyddion perfformiad allweddol os oes gennych rai)?

I ateb y cwestiynau hyn, dylech ystyried:

- cymariaethau â chanlyniadau adolygiadau blaenorol o ansawdd y gofal
- unrhyw batrymau a thueddiadau a nodwyd
- unrhyw faterion sy'n dod i'r amlwg,
- gwelliannau a wnaed ers yr adolygiad diwethaf
- unrhyw wersi i'w dysgu gan gynnwys gwersi i'w dysgu o ddigwyddiadau neu weithgarwch gwella blaenorol

Dylai'r dadansoddiad hwn eich galluogi i nodi beth sy'n gweithio'n dda a ble mae bylchau. Bydd hyn yn llywio argymhellion ar gyfer ysgogi gwelliant ym mhob rhan o'r gwasanaeth.

Dylai fod trefniadau ar waith i allu monitro unrhyw gynllun gweithredu i ymdrin â meysydd i'w gwella yn effeithiol.

## 4. Adroddiad ar yr adolygiad o ansawdd y gofal

Caiff yr adroddiad ar yr adolygiad o ansawdd y gofal ei **baratoi** gan yr Unigolyn Cyfrifol ar gyfer darparwr y gwasanaeth, gan gynnwys aelodau ei Fwrdd (lle bo hynny'n berthnasol) bob chwe mis.

Dylai'r adroddiad nodi sut mae'r gwasanaeth yn perfformio, lle y gall wella a'r camau gweithredu sydd eu hangen gan adlewyrchu'r dystiolaeth a'r dadansoddiad a nodwyd yn adran 2.

Er bod yr Unigolyn Cyfrifol yn gyfrifol am gynnwys, canfyddiadau a chasgliadau'r adroddiad, gall ofyn i bobl eraill ei helpu i'w baratoi.

Rydym wedi datblygu templed ar gyfer adroddiad y bydd darparwyr gwasanaethau o bosibl am ei ddilyn. Lluniwyd y templed hwn i'ch helpu i gyflawni eich cyfrifoldebau statudol ond nid yw'n ofynnol i chi ei ddilyn. Gall Unigolion Cyfrifol ddefnyddio'r hyn sy'n gweithio orau i'w gwasanaethau, yn eu barn nhw, ond dylent sicrhau yr ymdrinnir â'r meysydd yn y pwyntiau bwled uchod.

Darperir y templed yn Atodiad F ac mae'n sicrhau bod yr adroddiad yn cyd-fynd â'r pedair thema allweddol a ystyrir yn ystod arolygiadau.

- llesiant
- gofal a chymorth
- yr amgylchedd (nid yw'n berthnasol i wasanaethau cymorth cartref)
- arweinyddiaeth a rheolaeth

Bydd ystyried y llinellau ymholi sy'n rhan o fframwaith arolygu AGC yn helpu i sicrhau adolygiad cynhwysfawr o ansawdd y gofal a ddarperir gennych.

Mae Atodiad D yn cynnwys enghreifftiau o wybodaeth i'w chynnwys. *Nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr ac fe'ch anogir i ystyried enghreifftiau eraill sy'n berthnasol i'ch gwasanaeth wrth lunio'r adroddiad ar yr adolygiad o ansawdd y gofal.*

*Efallai y byddai'n ddefnyddiol i chi roi gradd i'ch gwasanaeth mewn perthynas â phob thema. Gellid gwneud hyn drwy ddefnyddio disgrifyddion graddau AGC neu system goleuadau traffig 'Coch, Melyn, Gwyrdd.' Ceir crynodeb o ddisgrifyddion AGC yn Atodiad E.*

Nid oes angen i chi anfon copi o'r adroddiad at AGC oni bai y gofynnwyd i chi wneud hynny (er enghraifft, fel rhan o arolygiad).

Efallai y bydd gan eraill ddiddordeb yn ei gynnwys ac efallai yr hoffech ei rannu â nhw. Er enghraifft

- Y tîm rheoli a'r staff
- pobl sy'n defnyddio neu sy'n dymuno defnyddio'r gwasanaeth a/neu eu teuluoedd neu gynrychiolwyr ac aelodau o'r cyhoedd

- comisiynwyr gwasanaethau neu awdurdodau sy'n prynu ac yn monitro darpariaeth gofal cymdeithasol

Fodd bynnag, nid oes rhwymedigaeth gyfreithiol i rannu'r adroddiad â'r rhai a restrir uchod, oni bai bod darparwr y gwasanaeth yn dymuno gwneud hynny neu fod yn rhaid iddo wneud hynny o dan gontract.

## Atodiad A – Awgrymiadau a Chyngor: Pethau i'w gwneud a phethau i'w hosgoi *(addaswyd o waith Estyn)*

**Pethau i'w gwneud**

- datblygu diwylliant dysgu sy'n hyrwyddo gwelliant parhaus
- defnyddio ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth i arloesi a gwella
- bod yn fyfyriol, yn agored ac yn onest
- cynnwys pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, eu teuluoedd, staff a rhanddeiliaid eraill a gwrando arnynt
- defnyddio amrywiaeth dda o ddulliau i gasglu tystiolaeth ddibynadwy
- cynnal ymarfer effeithiol presennol ac adeiladu arno
- adolygu cynnydd yn erbyn blaenoriaethau gwella yn barhaus

**Pethau i'w hosgoi**

- canolbwyntio'n gyfan gwbl ar ansawdd gwaith papur
- trin hunanwerthuso fel digwyddiad (yn hytrach na phroses barhaus)
- gwahanu hunanwerthuso wrth brosesau gwella eraill
- canolbwyntio ar ystod gul o ddata
- pennu mai uwch-arweinwyr yn unig sy'n gyfrifol am hunanwerthuso
- barnu popeth
- gwneud i bethau edrych yn well nag ydynt mewn gwirionedd

## Atodiad B - Adnoddau defnyddiol

**Fframwaith Arolygu Arolygiaeth Gofal Cymru** **250508-framework-Inspecting-Adult-and-Children-cy_0.pdf**

Cefnogi **Diwylliannau cadarnhaol** - Canllaw: cefnogi diwylliannau cadarnhaol - Gofal Cymdeithasol Cymru - Ymchwil, Data ac Arloesi

**Arolygiaeth Gofal yr Alban** Self_evaluation_for_improvement_-_your_guide.pdf

**Skills for Care** **Guide to improvement** – er bod yr adnodd hwn yn canolbwyntio ar CQC, mae cynnwys defnyddiol ar wella a hunanwerthuso

**Gofal Cymdeithasol Cymru** **Ein cynnig tystiolaeth | Gofal Cymdeithasol Cymru**

**Y Sefydliad Gofal Cymdeithasol er Rhagoriaeth (SCIE)**

**NICE** Quality standards | Standards and Indicators | NICE

Overview | Home care for older people | Quality standards | NICE

Quality improvement resource for adult social care | Social care | NICE Communities | About | NICE

## Atodiad C - Deddfwriaeth gysylltiedig

| | |
|---|---|
| Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 | https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2016/2/contents/enacted/welsh |
| Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017 | https://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2017/1264/contents/made/welsh |
| Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Datganiadau Blynyddol) (Cymru) 2017 | https://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2017/1097/contents/made/welsh |
| Rheoliadau Gwasanaethau Lleoli Oedolion (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019 | https://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2019/163/made/welsh |
| Rheoliadau Gwasanaethau Eirioli Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019 | https://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2019/165/contents/made/welsh |
| Rheoliadau Gwasanaethau Maethu Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019 | https://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2019/169/contents/made/welsh |
| Rheoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019 | https://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2019/762/contents/made/welsh |
| Rheoliadau Gwasanaethau Preswyl Ysgolion Arbennig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2024 | Rheoliadau Gwasanaethau Preswyl Ysgolion Arbennig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2024 (legislation.gov.uk) |
| Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Gwasanaethau Preswyl Ysgolion Arbennig) (Cymru) 2023 | https://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2023/1327/contents/made |
| Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) (Diwygio) 2024 | Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) (Diwygio) 2024 (legislation.gov.uk) |

## Atodiad D - Enghreifftiau o'r hyn i'w gynnwys mewn adroddiad ar yr Adolygiad o Ansawdd y Gofal

**Ymgysylltu:** Crynodeb o'r trefniadau sydd ar waith i helpu i ymgysylltu â'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, teuluoedd, staff, a gweithwyr proffesiynol eraill. Dadansoddiad o'r safbwyntiau a gasglwyd gan gynnwys yn ystod ymweliadau bob tri mis gan yr Unigolyn Cyfrifol. Unrhyw gamau a gymerwyd o ganlyniad i adborth.

- **Datganiad o ddiben:** Tystiolaeth o sut rydych yn cyflawni'r genhadaeth, y weledigaeth a'r amcanion a nodir yn eich Datganiad o Ddiben
- **Patrymau a thueddiadau** a nodwyd drwy ddadansoddi data ar ddigwyddiadau, damweiniau neu ddamweiniau a fu bron â digwydd, er enghraifft cwympiadau neu wallau wrth roi meddyginiaeth; risgiau diogelu; cofnodion ar achosion o reoli neu atal unigolion; chwythu'r chwiban; pryderon a chwynion; ynghyd â'r materion a nodwyd a'r gwersi a ddysgwyd
- **Cynnal hawliau pobl:** Tystiolaeth o'r graddau y mae hawliau pobl yn cael eu cynnal, er enghraifft sut mae'r bobl yn cyfrannu at benderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau, yn cael gafael ar ofal iechyd, a sut yr ymdrinnir â materion sy'n ymwneud ag ansawdd, amrywiaeth a chynhwysiant gan gynnwys y Gymraeg.
- **Staffio:** Data mewn perthynas â recriwtio, cadw staff a lefelau staffio; cyfraddau salwch, nifer y staff sy'n cael hyfforddiant, canlyniadau sy'n deillio o werthuso effeithiolrwydd hyfforddiant, sesiynau goruchwylio a/neu ganlyniadau arfarnu.
- **Diogelu**: Tystiolaeth o effeithiolrwydd diogelu. Gallai hyn gynnwys data ar nifer yr atgyfeiriadau a wnaed, canlyniadau ymchwiliadau, nifer y digwyddiadau chwythu'r chwiban, atgyfeiriadau i gael awdurdod ar gyfer trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid; mynd ar drywydd canlyniadau a'r gwersi a ddysgwyd o ganlyniad i hynny.
- **Sicrhau ansawdd:** Canlyniadau archwiliadau ansawdd a manylion am y camau gweithredu a gymerwyd/gwelliannau gan gynnwys
    - Cynlluniau gofal a chymorth
    - Cynlluniau gwella
    - Canmoliaeth a Chwynion
    - Meddyginiaeth
    - Diogelu
    - Iechyd a Diogelwch
- Perfformiad yn erbyn unrhyw safonau ansawdd mewnol eraill.

## Atodiad E - Crynodeb o ddisgrifyddion graddau AGC

Mae gradd ‘rhagorol’ yn golygu bod y gwasanaeth, gydag eithriadau prin, yn neilltuol. Gallai

hyn fod am arweinyddiaeth eithriadol, am ofal a chymorth sy'n rhoi

pobl wrth wraidd popeth a wnânt, neu am wneud gwahaniaeth cadarnhaol sylweddol

i lesiant pobl.

Mae gradd 'da' yn golygu bod y gwasanaeth yn ddiogel ac yn ofalgar yn gyson, a'i fod yn cyflawni canlyniadau

pobl drwy arferion dibynadwy ac iddynt ganlyniadau cadarnhaol.

Mae gradd ‘rhaid gwella’ yn golygu weithiau nad yw'r gwasanaeth yn cyrraedd y safonau disgwyliedig, a bod yna arferion anghyson a meysydd y mae angen eu cryfhau i sicrhau diogelwch a llesiant pobl.

Mae gradd ‘rhaid gwella'n sylweddol’ yn golygu mai anaml y mae'r gwasanaeth yn effeithiol, bod ganddo arweinyddiaeth wan neu annigonol a bylchau sylweddol yn y gofal sy'n peri risg o ran diogelwch a llesiant pobl. Mae angen gweithredu ar unwaith i wneud gwelliannau.

I gael rhagor o fanylion, gweler fframwaith arolygu AGC: 250508-framework-Inspecting-Adult-and-Children-cy_0.pdf

## Atodiad F - Templed ar gyfer adroddiad ar yr adolygiad o ansawdd y gofal

| Llesiant |
|---|
| 1. Mae'r bobl yn byw bywyd iach a diogel ac mae ganddynt reolaeth dros eu bywydau, wedi'u cefnogi gan brosesau cadarnhaol ar gyfer rheoli risg. Mae gwybodaeth ar gael iddynt sy'n meithrin dewis ac annibyniaeth, a chânt gymorth ar gyfer gweithgareddau ystyrlon, anghenion cyfathrebu ac anghenion iechyd er mwyn cyflawni eu dyheadau a'u canlyniadau personol.<br><br>2. Mae'r bobl yn ddiogel ac yn cael eu hamddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod<br><br>3. Mae'r bobl yn cael gwybod sut i godi pryderon mewn ffordd sy'n addas ar gyfer eu hanghenion cyfathrebu.<br><br>4. Mae'r bobl yn cael cymorth i feithrin cydberthnasau diogel ac iach gan gynnwys ymgysylltu mewn ffordd ystyrlon â'u cymuned, teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, a datblygu i'w llawn botensial, gan gynnwys mynediad at addysg, a hynny gan wneud y pethau sy'n bwysig iddynt. Mae hyn yn cynnwys cynnal llesiant ariannol ac annibyniaeth a chael gofal yn Gymraeg os byddant am gael hynny.<br><br>5. Mae'r bobl yn byw mewn llety sy'n cefnogi eu canlyniadau llesiant |
| **Beth rydym yn ei wneud yn dda a sut rydym yn gwybod?** |
| |
| **Beth sydd wedi gwella neu wedi newid ers yr adolygiad diwethaf?** |
| |
| **Pa feysydd y mae angen i ni eu gwella neu rydym yn dymuno eu datblygu ymhellach?** |
| |
| **Pa gamau penodol y mae angen i ni eu cymryd a sut y byddwn yn mesur ein cynnydd?** |
| |

| Gofal a Chymorth |
|---|
| 6. Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth o'r ansawdd sydd ei angen arnynt i gyflawni eu canlyniadau personol - caiff y gofal ei gynllunio drwy ymgynghori â'r bobl, gan ystyried eu dymuniadau, eu dyheadau, risgiau, ac anghenion arbenigol. Mae'r bobl yn cael parhad gofal, ac mae'r staff yn ymgynghori â'r asiantaethau a'r arbenigwyr perthnasol fel y bo angen. Darperir gofal a chymorth yn yr iaith a'r dull cyfathrebu sy'n diwallu anghenion y bobl orau.<br>7. Caiff meddyginiaeth y bobl ei rheoli'n ddiogel.<br>8. Caiff y risg y bydd y bobl yn cael haint ei lleihau drwy ymdrechion gan ddarparwr y gwasanaeth i hyrwyddo arferion hylendid da, ac i sicrhau bod cyflenwadau digonol ar gael i ddiwallu anghenion y bobl. |
| **Beth rydym yn ei wneud yn dda a sut rydym yn gwybod?** |
| |
| **Beth sydd wedi gwella neu wedi newid ers yr adolygiad diwethaf?** |
| |
| **Pa feysydd y mae angen i ni eu gwella neu rydym yn dymuno eu datblygu ymhellach?** |
| |
| **Pa gamau penodol y mae angen i ni eu cymryd a sut y byddwn yn mesur ein cynnydd?** |
| |

| Yr amgylchedd (nid gwasanaethau cymorth cartref) |
| --- |
| 9. Mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd â chyfleusterau a chyfarpar priodol a gaiff eu cynnal a'u cadw'n dda i'w helpu i gyflawni eu canlyniadau llesiant gan nodi, lliniaru a lleihau risgiau iechyd a diogelwch ar yr un pryd. Caiff y risg y bydd y bobl yn cael haint ei lleihau drwy ymdrechion gan ddarparwr y gwasanaeth i hyrwyddo arferion hylendid da, ac i sicrhau bod cyflenwadau digonol ar gael i ddiwallu anghenion y bobl. |
| **Beth rydym yn ei wneud yn dda a sut rydym yn gwybod?** |
| |
| **Beth sydd wedi gwella neu wedi newid ers yr adolygiad diwethaf?** |
| |
| **Pa feysydd y mae angen i ni eu gwella neu rydym yn dymuno eu datblygu ymhellach?** |
| |
| **Pa gamau penodol y mae angen i ni eu cymryd a sut y byddwn yn mesur ein cynnydd?** |
| |

| Arweinyddiaeth a Rheolaeth |
|---|
| 10. Caiff y bobl gymorth i gyflawni eu canlyniadau gan fod darparwr y gwasanaeth wedi rhoi trefniadau sefydliadol, trefniadau llywodraethu a threfniadau goruchwylio effeithiol ar waith i sicrhau gweithrediadau hwylus a gofal o ansawdd uchel. Mae hyn yn cynnwys gwiriadau ansawdd a phrosesau sicrwydd effeithiol sy'n ysgogi gwelliannau parhaus i'r gwasanaeth, meithrin tryloywder, casglu adborth ac ymateb iddo, helpu'r staff i godi pryderon ac i ddilyn prosesau chwythu'r chwiban, ymdrin â chwynion yn effeithiol, a dysgu ohonynt er mwyn gwella'r gwasanaeth a ddarperir. Mae darparwr y gwasanaeth yn sicrhau bod y bobl, comisiynwyr gofal, cyrff rheoleiddio, asiantaethau a gweithwyr proffesiynol yn cael gwybodaeth gywir a hygyrch am y gwasanaeth a'r ffordd y caiff ei ddarparu.<br><br>11. Mae'r bobl yn cael cymorth gan staff sy'n meddu ar yr arbenigedd, y sgiliau a'r cymwysterau angenrheidiol i ddiwallu anghenion gofal a chymorth y bobl. Mae darparwr y gwasanaeth yn cynnal nifer priodol o staff gwybodus a chymwys wedi'u fetio, ac yn eu defnyddio mewn ffordd effeithiol yn y gwasanaeth. Mae'r darparwr yn sicrhau bod cyfleoedd dysgu a datblygu parhaus ar gael i'r staff.<br><br>12. *Ar gyfer gwasanaethau cymorth cartref yn unig* – Mae'r bobl yn cael cymorth gan staff sydd â digon o amser i ddarparu gofal, ac sy'n cael dewis o ran eu trefniadau cytundebol. |
| **Beth rydym yn ei wneud yn dda a sut rydym yn gwybod?** |
| |
| **Beth sydd wedi gwella neu wedi newid ers yr adolygiad diwethaf?** |
| |
| **Pa feysydd y mae angen i ni eu gwella neu rydym yn dymuno eu datblygu ymhellach?** |
| |
| **Pa gamau penodol y mae angen i ni eu cymryd a sut y byddwn yn mesur ein cynnydd?** |
| |